**GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN**

**(GOSOD TERFYN CYFLYMDER 30 M.Y.A) 2026**

---

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen), trwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), 84(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) (y cyfeirir ati fel "y Ddeddf" o hyn ymlaen), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Cyfeirir at y Gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gosod Terfyn Cyflymder 30 M.Y.A) 2026" a bydd yn dod i rym ar y XXX o XXX 2026.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

   (a) Ystyr '**Atodlen Map**' yw'r casgliad o Deils Map a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn sy'n dangos, drwy gyfeirio at Eglurhad yr Atodlen Map, y darnau ffyrdd y mae'r terfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn berthnasol iddynt.

   (b) Ystyr '**Cerbyd Esempt**' yw:

      (i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn Adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; a/neu

      (ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd, am y tro, yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r Lluoedd Arbennig ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol neu at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

(c) Ystyr '**Cyfeirnod Teilsen**' yw'r cyfeirnod a roddir i bob Teilsen Map, gan ddechrau yn y pen uchaf ar y chwith a chynyddu'n rhifiadol ar draws y grid yn llorweddol ac yn nhrefn yr wyddor i lawr y grid yn fertigol.

(d) Ystyr '**Eglurhad yr Atodlen Map**' yw Eglurhad yr Atodlen Map a arnodwyd ar y Deilsen Map, sy'n nodi'r darnau ffyrdd y mae'r terfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn berthnasol iddynt.

(e) Ystyr '**Lluoedd Arbennig**' yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd, am y tro, yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y cyfarwyddwr hwnnw.

(f) Ystyr '**Map'** yw map o Sir Gaerfyrddin gyfan, sydd i'w ddarllen ar y cyd â'r Gorchymyn ac sy'n ffurfio rhan o'r Gorchymyn.

(g) Ystyr '**Teilsen Map**' yw petryal grid sy'n troshaenu'r Map sy'n dynodi ardal yn Sir Gaerfyrddin, lle mae gan bob teilsen Gyfeirnod Teilsen unigryw.

3 Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio Cerbyd Esempt, yn gyflymach na 30 m.y.a ar hyd y darnau ffyrdd neu'r rhannau o'r darnau ffyrdd a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4 Mae "Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gosod Terfyn Cyflymder 20 M.Y.A) 2023" yn cael ei ddirymu i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darnau ffyrdd neu'r rhannau o'r darnau ffyrdd a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**GWNAED** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Caerfyrddin ar y XXX o XXX Dwy Fil a Dau Ddeg Chwech.

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN )

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )

ar y ddogfen hon )

ym mhresenoldeb: )

..................................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**

## ATODLEN 1

### GOSOD TERFYN CYFLYMDER 30 M.Y.A

| | | | |
|---|---|---|---|
| AF30 | Q11 | S18 | T28 |
| U22 | V21 | V22 | V34 |

## ATODLEN 2

### DIRYMU'R TERFYN CYFLYMDER 20 M.Y.A PRESENNOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Q11 | S18 | T28 | U22 |
| V21 | V22 | V34 | |